Canllaw i Adroddiad Blynyddol y Rhaglen **Archwilio Newyddenedigol** Genedlaethol 2019

**NNAP**
**Y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol**

# Gofal eich baban

## Mesur safonau a gwella gofal newyddenedigol



"Tynnwyd y llun hwn y llynedd ar gyfer Diwrnod Cynamserol y Byd. Llun o Henry yn ddyflwydd oed yn ei wisg ysgol feithrin yn dal llun ohono pan oedd yn glaf ar yr uned. Rwyf wrth fy modd â'r llun hwn am ei fod wir yn dangos pa mor bell mae ef wedi dod."

**Nicki Cooper, Mam.**

RCPCH Audits

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
*Leading the way in Children's Health*



## Gofal eich baban


"Ganwyd fy merch gyda'r coluddion y tu allan i'r corff (gastroschisis). Mae'r llun ohoni gyda'i chwaer hŷn yn bwysig i mi oherwydd, am ein bod ni mor bell oddi cartref, roedd yn rhaid i'n merch hynaf dreulio llawer o'r wythnos yn byw gyda'i nain a'i thaid. Roedd y penwythnosau yn amser arbennig i ni gyd feithrin perthynas fel teulu ac roedd staff yr uned yn wych am ddeall a chefnogi hyn."

**Siân Holland, Mam**

# Gofal Newyddenedigol

Bydd angen gofal newyddenedigol ar oddeutu 1 o bob 7 baban a gaiff ei eni yng Nghymru, yr Alban a Lloegr bob blwyddyn. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu geni'n rhy gynnar, gyda phwysau geni isel neu oherwydd bod ganddynt gyflwr meddygol sydd angen triniaeth arbenigol.

Bydd angen monitro anadlu rhai babanod ac mae rhai angen cymorth ychwanegol i anadlu. Mae rhai babanod yn cael eu geni gyda haint ac angen gwrthfiotigau ac eraill yn cael eu geni gyda chyflwr meddygol. Mae hyd arhosiad babanod mewn uned babanod newydd-anedig yn gallu amrywio o ddyddiau, i wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar eu hanghenion.




**Derbyniadau i unedau newyddenedigol**

Bydd angen gofal newyddenedigol arbenigol mewn ysbyty ar oddeutu **1 o bob 7 baban** (neu 105,000 o bob 750,000) a gaiff ei eni yng Nghymru, yr Alban a Lloegr bob blwyddyn.

# Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol?

**Mae'n bwysig bod safonau'r gofal a ddarperir mewn unedau newyddenedigol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.**

**Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn gwneud hyn drwy'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP).**

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn helpu unedau newyddenedigol i roi gwell gofal i fabanod sydd angen triniaeth arbenigol.

Rydym yn ystyried a yw babanod yn cael gofal o ansawdd uchel yn gyson. Rydym yn asesu a yw babanod wedi cael y gwiriadau iechyd a argymhellir ar eu cyfer i leihau'r risg o gymhlethdodau, ac rydym yn gwirio cynnydd y babanod ar ôl cael y gofal hwn.

Defnyddiwn wybodaeth am ofal eich baban i helpu unedau newyddenedigol yng Nghymru, yr Alban, Lloegr ac Ynys Manaw i wella gofal a chanlyniadau babanod eraill.

Mae staff unedau newyddenedigol yn cofnodi gwybodaeth am fabanod ar system gofnodi electronig ddiogel. Nid oes gan y tîm NNAP fynediad at unrhyw wybodaeth a allai adnabod babanod unigol, ac nid yw unrhyw fabanod yn cael eu hadnabod yn ein hadroddiadau.
I gael mwy o wybodaeth am hyn, gallwch ddarllen ein taflen 'Gwybodaeth eich baban' sydd ar gael ar ein gwefan:

**www.rcpch.ac.uk/nnap**



# Pa agweddau ar ofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio arnynt?

**Roedd adroddiad NNAP 2019 ar ddata 2018 yn edrych ar 16 maes gofal ar gyfer babanod cynamserol a sâl, a gwmpesir gan 20 mesur archwilio.**

**Dewiswyd y meysydd y gwnaethom ganolbwyntio arnynt gan grŵp o arbenigwyr mewn gofal newyddenedigol, yn cynnwys nyrsys a meddygon, gyda chefnogaeth rhieni.**

**Yn y daflen hon rydym yn rhoi mwy o fanylion am 11 o'r mesurau, a ddewiswyd gan rieni, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sefydliadau sy'n wynebu cleifion.**

Gallwch weld y rhestr lawn o fesurau yn:
**www.rcpch.ac.uk/about-nnap**

Os ydych chi eisiau darganfod mwy ar ôl darllen y daflen hon, gallwch weld adroddiad llawn NNAP ar ddata a gwybodaeth 2018 am bob ysbyty ar wefan NNAP yn:
**www.nnap.rcpch.ac.uk**



**"Tynnwyd y llun hwn ychydig dros wythnos cyn i Henry gael ei ryddhau o'r uned a dyma'r ail dro iddo gael bath. Y tro cyntaf y nyrs roddodd fath iddo, ond y tro hwn cawsom roi bath iddo ein hunain ac roedd hi'n teimlo'n wych cael gwneud rhywbeth mor normal gyda'n baban."**

**Nicki Cooper, Mam**


# Steroidau Cynenedigol

## Cwestiwn:

**A yw mam sy’n geni babi rhwng 23 a 33 wythnos o feichiogrwydd (gan gynnwys yr wythnosau hynny) yn cael o leiaf un dos o steroidau cynenedigol?**

Weithiau mae babanod sy’n cael eu geni yn gynharach na 34 wythnos yn cael anawsterau anadlu yn ystod y diwrnodau cyntaf ar ôl cael eu geni.

Gall rhoi steroidau cynenedigol i famau sydd ar fin geni babi yn gynnar helpu i leihau problemau anadlu mewn babanod, a gall hefyd wneud problemau difrifol eraill, fel gwaedu i mewn i'r ymennydd, yn llai tebygol.




**Steroidau Cynenedigol**

Rhoddwyd steroidau cynenedigol i **91%** o famau yn 2018.

# Magnesiwm sylffad cynenedigol


## Cwestiwn:

**A roddir magnesiwm sylffad i fam sy’n geni babi cyn 30 wythnos o feichiogrwydd yn y 24 awr cyn geni?**

Mae rhoi magnesiwm sylffad i fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn gynnar yn lleihau'r posibilrwydd y bydd eu baban yn datblygu parlys yr ymennydd, cyflwr gydol oes sy'n effeithio ar symud a chydsymud, tua thraean.

Argymhellir bod pob mam a allai roi genedigaeth cyn 30 wythnos o feichiogrwydd yn cael cynnig y driniaeth hon.






### Magnesiwm sylffad cynenedigol

Rhoddwyd magnesiwm sylffad i 72% o fenywod a roddodd enedigaeth cyn 30 wythnos o feichiogrwydd.


# Tymheredd babanod adeg eu derbyn

## Cwestiwn:

**A yw tymheredd pob baban a gaiff ei eni yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd yn cael ei fesur, yn 36.5°C i 37.5°C, o fewn awr ar ôl iddo gael ei eni?**

Mae babanod sy'n cael eu geni yn gynnar iawn yn oeri'n hawdd iawn ar ôl cael eu geni. Mae bod yn oer yn gallu gwneud babanod yn fwy sâl.

Mae angen i feddygon a nyrsys yn yr uned babanod newydd-anedig wybod tymheredd baban cyn gynted ag y caiff ei eni, fel y gallant atal y baban rhag oeri.




**Tymheredd babanod adeg eu derbyn**

Yn 2018, cafodd **67%** o fabanod a anwyd yn gynharach na 32 wythnos eu derbyn i uned babanod newydd-anedig gyda thymheredd o fewn yr ystod a argymhellir, sef 36.5°C i 37.5°C.



"Ganwyd Lowri gartref pan oeddwn yn 27 wythnos a 5 diwrnod yn feichiog. Dyma lun o'r diwrnod y cafodd ei geni ar ôl i ni gyrraedd yr uned, ar ôl iddi gael ei rhoi ar beiriant anadlu."

**Louise Summerfield, Mam**

Gall ymyriadau syml megis gosod y baban mewn bag plastig ar ôl iddo gael ei eni helpu i gynnal tymheredd normal.

# Ymgynghoriad gyda rhieni

## Cwestiwn:

**A oes yna gofnod o uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol yn cynnal sesiwn ymgynghori â'r rhieni, o fewn 24 awr ar ôl i'r babi gael ei dderbyn?**

Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall gofal eu baban a'u bod yn rhan o'r gofal.


Rydym yn edrych i weld a yw rhieni wedi siarad ag uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol o fewn 24 awr ar ôl i'r baban gael ei dderbyn.

Yn yr ymgynghoriad cyntaf hwn, gall uwch-aelod o'r tîm gwrdd â'r rhieni a gwrando ar eu pryderon. Gall ef/hi esbonio sut mae'r tîm yn gofalu am y baban ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y rhieni.

### Beth allwch chi ei wneud?

Os ydych chi'n teimlo nad ydych chi wedi cael ymgynghoriad cynnar ag aelod o'r tîm newyddenedigol gallwch ofyn i nyrs eich baban drefnu un.

Yn y cyfarfod hwn, gallwch drafodsut allwch chi weithio mewn partneriaeth â'r tîm newyddenedigol i ofalu am eich baban.




### Ymgynghoriad gyda rhieni

Cofnod bod 96% o rieni wedi cael ymgynghoriad gyda uwch-aelod o'r tîm newyddenedigol o fewn 24 awr ar ôl i'r baban gael ei dderbyn i'r uned yn 2018.


# Rhieni yn bresennol yn ystodrowndiau ward

## Cwestiwn:

**Yn achos baban a dderbyniwyd i'r uned babanod newydd-anedig am fwy na 24 awr, a oedd o leiaf un rhiant yn bresennol yn ystod rownd ward y meddyg ymgynghorol?**

Mae gofal dwys i'r newydd-anedig yn peri straen mawr i fabanod a rhieni. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall gofal eu baban a'u bod yn rhan o'r gofal.

Gall cynnwys rhieni ar rowndiau ward y meddyg ymgynghorol, sy'n digwydd yn rheolaidd ar unedau babanod newydd-anedig, helpu i ddatblygu partneriaeth mewn cynllunio gofal rhwng y rhieni a'r tîm newyddenedigol.




**Presenoldeb rhieni ar rowndiau ward meddygon ymgynghorol**

Yn achos **79%** o dderbyniadau, roedd y rhieni yn bresennol ar rownd ward y meddyg ymgynghorol, o leiaf unwaith yn ystod arhosiad baban.



## Beth allwch chi ei wneud?

Gallwch ofyn i nyrs eich baban neu aelod o’r tîm newyddenedigol a allwch chi fod yn bresennol yn ystod rownd ward y meddyg ymgynghorol.

Gallwch hefyd holi sut y gallwch weithio mewn partneriaeth â’r tîm newyddenedigol i wneud cynlluniau ar gyfer eich baban.

# Sgrinio am retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar


## Cwestiwn:

**A yw baban a dderbyniwyd ac a anwyd yn pwyso llai na 1501g, neu yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd, yn cael ei sgrinio am retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar (ROP) yn unol â dehongliad yr NNAP o argymhellion y canllawiau cyfredol?**

Mae babanod a enir yn gynnar iawn neu â phwysau isel iawn ar adeg eu geni, mewn perygl o gael cyflwr o'r enw retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar (ROP). Mae ROP yn effeithio ar y pibellau gwaed yng nghefn y llygaid a gall arwain at golli golwg.

Gellir atal ROP fel arfer trwy ei drin yn gynnar. Mae sgrinio babanod am ROP ar yr adeg iawn yn bwysig i helpu babanod i gael y golwg gorau yn y dyfodol. Mae canllaw cenedlaethol yn dweud pryd y dylid cynnal y sgrinio hwn.

Rydym yn edrych ar ba mor llwyddiannus yw gwasanaethau newyddenedigol wrth sgrinio 'mewn pryd'.




**Sgrinio am retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar (ROP)**

Cynhaliwyd sgrinio am ROP mewn pryd yn achos 94% o fabanod yn 2018.

### Beth allwch chi ei wneud?

Gofynnwch i'r tîm newyddenedigol a yw sgrinio am ROP yn berthnasol i'ch baban, a phryd mae eich baban i fod i gael ei sgrinio. Os yw eich baban i fod i gael sgrinio ar ôl gadael yr uned, gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu dod i'r apwyntiad.

Holwch a fydd angen i chi fynd i unrhyw apwyntiadau dilynol.

# Mesur cyfraddau haint ar unedau babanod newydd-anedig

Mae babanod sâl a chynamserol yn fwy tebygol o gael heintiau o germau, gan gynnwys rhai nad ydynt fel arfer yn peri niwed i bobl iach.

Gall heintiau olygu bod rhaid i fabanod aros yn hirach yn yr uned babanod newydd-anedig a gall waethygu'r rhagolygon datblygu tymor hir i fabanod.

Gall staff mewn unedau babanod newydd-anedig helpu i leihau'r risg o haint trwy roi sylw gofalus a dilyn arferion da, er enghraifft, golchi eu dwylo cyn dod i gysylltiad â'r baban.

I chwilio am haint mewn babanod, gall staff yr uned babanod newydd-anedig gymryd sampl gwaed, neu sampl o hylif o'r asgwrn cefn. Os bydd germau yn tyfu yn y sampl hwn, mae'n cael ei alw yn feithriniad gwaed positif.

Yn yr NNAP, rydym yn mesur cyfraddau haint yn y llif gwaed yn seiliedig ar nifer y meithriniadau gwaed positif.

Mae data eleni yn dangos bod un o bob deg baban sy'n cael ei eni yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd yn datblygu haint o ganlyniad i germ sy'n achosi pryder cyn iddynt fynd adref o'r ysbyty.



# Dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)


## Cwestiwn:

**A yw baban sy'n cael ei eni yn gynharach na 32 wythnos o feichiogrwydd yn marw neu yn datblygu dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)?**

Pan gaiff babanod eu geni yn gynnar iawn, yn aml, ni fydd eu hysgyfaint wedi datblygu'n llawn ac mae llawer angen cymorth peiriant anadlu neu ddyfais arall i anadlu. Yn syml, gall cael eich geni'n gynnar achosi peth anhawster anadlu parhaus.

Gall bod ar beiriant anadlu achosi niwed i'r ysgyfaint, gwaethygu problemau anadlu yn ddiweddarach mewn bywyd a rhoi babanod mewn perygl o gael heintiau ar y frest. Gelwir y cyflwr hwn yn dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD) ac weithiau fe'i gelwir yn glefyd cronig yr ysgyfaint.

Mae cyfraddau BPD yn amrywio rhwng unedau babanod newydd-anedig. Gellir esbonio'r amrywiad hwn yn rhannol gan wahaniaethau yng nghymhlethdod a chynamseroldeb babanod rhwng unedau babanod newydd-anedig a'r dulliau y maent yn eu defnyddio. Mae unedau babanod newydd-anedig yn amcanu i leihau cyfraddau BPD.




**Dysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD)**

Datblygodd **37%** o fabanod a gafodd eu geni ar ôl llai na 32 wythnos yn y groth a dderbyniwyd i unedau NNAP ddysplasia bronco-ysgyfeiniol (BPD) sylweddol rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2018.



**"Fy mab yn cael ocsigen trwy beiriant anadlu. Cafodd y dechrau gorau, diolch i ychydig o help i anadlu."**

**Jenna Curry, Mam**

# Cadw mamau a babanod gyda'i gilydd


## Cwestiwn:

**Yn achos babanod na chafodd unrhyw lawdriniaeth na throsglwyddiad yn ystod eu harhosiad, faint o ddiwrnodau gofal arbennig neu ofal arferol a ddarparwyd pan na roddwyd ocsigen?**

Mae rhai babanod sy'n cael eu derbyn i unedau babanod newydd-anedig yn gallu cael eu gwahanu oddi wrth eu mamau am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol. Efallai y bydd yn bosibl gofalu am rai babanod ochr yn ochr â'u mam, gyda bydwragedd a staff newydd-anedig yn gofalu am y fam a'r babi.

Yn achos rhai babanod, mae'n bosib y gellid osgoi cael eu gwahanu oddi wrth eu mam yn gyfan gwbl. Yn achos babanod eraill y mae'n rhaid eu derbyn i uned babanod newydd-anedig, efallai y bydd yn dal yn bosibl lleihau nifer y diwrnodau y maent yn derbyn gofal ar wahân yn ystod eu harhosiad.

Rydym yn edrych ar fabanod sy'n cael eu geni ar ôl cael eu cario i'w cyfnod llawn (ar ôl 37 wythnos neu fwy) a babanod sy'n cael eu geni ychydig o flaen y cyfnod llawn (rhwng 34 a 36 wythnos).




**Lleihau cymaint â phosib faint mae mamau a babanod yn cael eu gwahanu**

Cafodd babanod a anwyd ar ôl cael eu cario i'w cyfnod llawn a dderbyniwyd i unedau babanod newydd-anedig eu gwahanu oddi wrth eu mamau am 3 diwrnod ar gyfartaledd. Yn achos babanod a anwyd ychydig o flaen y cyfnod llawn roedd y ffigwr yn 6.6 diwrnod ar gyfartaledd.

# Bwydo ar laeth y fron adeg mynd adref

## Cwestiwn:

**A yw baban sy'n cael ei eni cyn 33 wythnos yn cael rhywfaint o laeth ei fam ei hun pan mae'n mynd adref o'r uned babanod newydd-anedig?**

Mae cael llaeth y fron yn helpu i atal haint a phroblemau coluddyn mewn babanod sy'n cael eu geni'n gynnar, ac yn gwella eu datblygiad a'u hiechyd yn y tymor hwy.

Efallai na fydd babanod sy'n cael eu geni'n gynnar neu sy'n sâl yn barod i gael eu bwydo ar fron eu mam yn syth, ond gall mamau dynnu llaeth o'r fron i'w babanod.

Mae'n bwysig bod staff yr uned babanod newydd-anedig yn rhoi cefnogaeth ymarferol i famau dynnu llaeth o'r fron os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac i sefydlu bwydo ar y fron, yn barod ar gyfer mynd adref.

**Cafodd 60% (2018)**



**Llaeth y fam ar adeg gadael yr uned**

Yr oedd **60%** o fabanod cymwys yn cael llaeth y fam; naill ai yn unig neu gyda math arall o fwydo, ar adeg gadael uned babanod newydd-anedig yn 2018.

### Beth allwch chi ei wneud?

Holwch staff yn eich uned sut y gallant eich cefnogi gyda bwydo ar y fron a thynnu llaeth o'r fron, a gofynnwch am gyngor ynghylch sefydliadau eraill sy'n cynnig cefnogaeth.



"Lowri's dad feeding her on the unit.  Lowri was born three months premature."

**Louise Summerfield, Mam**

# Ymgynghoriad dilynol pan fydd babanod yn ddwyflwydd oed

## Cwestiwn:


**A yw baban a anwyd cyn 30 wythnos yn cael ymgynghoriad meddygol dilynol pan fydd yn ddwyflwydd oed yn ôl y cyfnod cario wedi ei gywiro?**

Mae'n bwysig bod paediatregydd neu neonatolegydd (meddyg sy'n arbenigo mewn gofalu am blant a babanod) yn gwirio datblygiad babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn ar ôl iddynt adael yr uned i fabanod newydd-anedig.

Byddwn yn edrych i weld a fu ymgynghoriad dilynol wedi ei ddogfennu pan fydd babanod a aned cyn 30 wythnos yn cyrraedd dwyflwydd oed.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych am unrhyw broblemau gyda symud, y synhwyrau, oedi mewn datblygiad neu broblemau iechyd eraill.

Gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn gael y problemau hyn yn amlach na babanod sy'n cael eu geni ar ôl y cyfnod cario llawn. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gofalu am fabanod sy'n cael eu geni'n gynnar yn gwybod sut mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn.




### Beth allwch chi ei wneud?

Cadwch mewn cysylltiad â'r uned babanod newydd-anedig y buoch ynddi a gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod pryd ac ymhle bydd apwyntiadau dilynol yn digwydd.

Mae mynd i'r holl apwyntiadau dilynol yn golygu y gallwch gael tawelwch meddwl am sut mae eich baban yn datblygu, a chael unrhyw gefnogaeth gallai fod ei hangen ar eich baban i ddatblygu.





"Mae'r llun cyntaf yn dangos Mia ychydig ddyddiau ar ôl iddi gael ei geni. Mae hi ar beiriant anadlu, mae ganddi diwb bwydo, sawl caniwla a llinellau hir yn ei breichiau a'i choesau. Mae'r ail lun yn ei dangos yn ddwyflwydd oed, heb unrhyw diwbiau, dim problemau iechyd difrifol ac mae hi'n hapus iawn ei byd. Ei hoff beth i'w wneud yw crwydro byd natur. Mae hi wedi bod ar daith anodd iawn, ond mae ei gweld hi mor hapus nawr yn gwneud y cyfan yn werth chweil."


**Rachel Jones, Mam**

# Canlyniadau NNAP eich uned

Mae'r wybodaeth a roddir yn y llyfryn hwn yn disgrifio'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pob uned yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Ynys Manaw. Gallwch edrych am bosteri NNAP eich uned; yr ydym yn eu hannog i'w harddangos ar y wal.

Mae’r posteri hyn yn dangos canlyniadau NNAP eich uned, y canlyniadau cenedlaethol, a beth mae eich uned yn ei wneud mewn ymateb i’w canlyniadau NNAP. Lle mae cyfleoedd i wella, mae unedau yn cael eu hannog i lunio cynllun gweithredu.

Gallwch weld adroddiad llawn y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol a gwybodaeth am bob ysbyty ar wefan NNAP: **www.nnap.rcpch.ac.uk**






# Dysgwch fwy am yr NNAP

**I ddysgu mwy am yr archwiliad a sut y defnyddir gwybodaeth eich baban i wella gofal i'r newydd-anedig, siaradwch â'r staff yn eich uned babanod newydd-anedig.**

**Gallwch hefyd gysylltu â thîm y prosiect trwy anfon e-bost i: nnap@rcpch.ac.uk**

**Neu ewch i'n gwefan: www.rcpch.ac.uk/nnap**

RCPCH&Us

**Llais plant, pobl ifanc a theuluoedd**

**&Us** yw llwyfan yr RCPCH i blant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu i wella iechyd plant a gofal iechyd i gleifion ifanc.

Ymunwch ag **&Us** a helpu i wella'r GIG: **www.rcpch.ac.uk/and_us**

Bliss

for babies born premature or sick

Bliss yw elusen y DU sy'n gweithio i sicrhau bod gan bob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl yn y DU y gobaith gorau o oroesi a'r ansawdd bywyd gorau posib.

Mae Bliss yn cefnogi'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn llawn.

Am fwy o wybodaeth am Bliss, ewch i: **www.bliss.org.uk**



www.rcpch.ac.uk/nnap

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol wedi ei chomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion (NCAPOP). Arweinir yr HQIP gan gonsortiwm o Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol, y Coleg Nyrsio Brenhinol a National Voices.

Ei nod yw hyrwyddo gwella ansawdd yng nghanlyniadau cleifion, ac yn benodol, cynyddu'r effaith y mae archwiliad clinigol, rhaglenni adolygu canlyniadau a chofrestrfeydd yn ei chael ar ansawdd gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Gan HQIP y mae'r contract i gomisiynu, rheoli a datblygu'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion (NCAPOP), sy'n cynnwys tua 40 o brosiectau sy'n ymdrin â'r gofal a ddarperir i bobl ag ystod eang o gyflyrau meddygol, llawfeddygol ac iechyd meddwl. Mae'r rhaglen wedi ei chyllido gan GIG Lloegr, Llywodraeth Cymru ac, yn achos rhai prosiectau unigol, gweinyddiaethau datganoledig a thiriogaethau dibynnol ar y Goron eraill. www.hqip.org.uk/national-programmes.

**Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant**
5-11 Theobalds Road,
London, WC1X 8SH

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC038299). ©RCPCH 2018